UNIVERSITÉ RENNES ueb

UNIVERSITÉ RENNES 2
CAMPUS VILLEJEAN
Place du recteur
Henri Le Moal CS 24307
35043 Rennes cedex
France
T +33 (0)2 99 14 10 00
www.univ-rennes2.fr

Roazhon, 10fed o Ionawr 2012

Annwyl Brif Weinidog,

Mae dysgu ac astudio'r Gymraeg yn rhan o weithgarwch Prifysgol Roazhon (Rennes) ers diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, pan sefydlwyd Astudiaethau Llydewig a Cheltaidd yno gan Joseph Loth. Yn yr 80au, gyda sefydlu gradd mewn Llydaweg, diolch i waith Per Denez, rhoddwyd cychwyn i gwrs dysgu Cymraeg a chrëwyd swydd Tiwtor Cymraeg mewn cydweithrediad ag Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru, Aberystwyth (Prifysgol Aberystwyth bellach). Hyd yn hyn, mae'r bartneriaeth hon wedi golygu bod modd i Brifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Roazhon 2 ddatblygu ymchwil ar y cyd, cyhoeddi gweithiau ymchwil a chydweithio o ran dysgu ac addysgu. Mae'r Gymraeg yn chwarae rhan amlwg yn narpariaeth addysgol Adran y Llydaweg a'r Ieithoedd Celtaidd yn ein prifysgol, lle y mae dysgu Gwyddeleg hefyd yn cael sylw tebyg. Ein prifysgol ni yw'r unig un yn Ffrainc sydd yn cynnig cyrsiau dysgu Cymraeg (gan gynnwys dysgu o bell).

Am fod amharodrwydd ymhlith myfyrwyr i astudio ac i ddysgu ieithoedd ac am fod cyllido'n dod yn gynyddol anodd, mae ein prifysgol yn ein gorfodi i roi'r gorau i ddysgu Cymraeg yn Roazhon 2 o fis Medi 2012. Byddai cam o'r fath yn hynod niweidiol i'n hadran, heb os nac oni bai, ond hefyd i le Cymru a Llydaw yn Ffrainc. Byddai'r cau hefyd yn niweidiol i'r cyfnewid a'r cydweithredu ar ymchwil gyda'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd.

Gwyddom fod llawer o ddolenni cryfion rhwng Llywodraeth Cymru a Chyngor Rhanbarthol Llydaw. Gwyddom hefyd pa mor ganolog yw rôl Llywydd ein Cyngor Rhanbarthol, Jean-Yves Le Drian, yn y cysylltiadau hyn.

Ysgrifennwn atoch hefyd i geisio am gymorth ariannol gennych, er mwyn sicrhau bod y Gymraeg (gradd a gradd uwch) yn dal i gael ei dysgu. Byddwn yn dra pharod i roi ichi unrhyw fanylion ychwanegol y byddai eu hangen arnoch. Gallwn hefyd ddod i Gaerdydd i gwrdd â chi, neu ag un o'ch dirprwyon, er mwyn ateb yn well unrhyw gwestiynau y carech eu gofyn.

Yr eiddoch yn gywir

Yr Athro Herve Le Bihan
Cyfarwyddwr Adran y Llydaweg a'r Ieithoedd Celtaidd

Copi i :
M Jean-Emile Gombert, Président Université Rennes 2
M Jean-Yves Le Drian, Président Conseil Régional de Bretagne

CAMPUS LA HARPE
Avenue Charles Tillon
CS 24414
35044 Rennes cedex

CAMPUS MAZIER
2, Avenue Antoine Mazier
22015 St-Brieuc cedex 1